# Pembrolizumab i drin melanoma datblygedig ar ôl i'r camau clefyd ddatblygu gydag ipilimumab

Hydref 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Pembrolizumab (Keytruda). Mae'r cyffur hwn yn driniaeth bosibl ar gyfer oedolion â melanoma os:

- na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth neu os bydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff
- cafodd ei drin ag ipilimumab (rhaid i falanoma sydd wedi profi'n bositif ar gyfer mwtadiad BRAF V600 hefyd fod wedi cael ei drin â vemurafenib, dabrafenib, neu trametinib).

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych felanoma datblygedig (na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig) a bod eich meddyg o'r farn mai pembrolizumab yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai pembrolizumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau. Gan fod pembrolizumab ar gael yn y GIG drwy'r cynllun 'mynediad cynnar at feddyginiaethau', mae NHS England wedi nodi y bydd ar gael ar y GIG 30 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Mae NICE yn rhoi ystyriaeth arbennig i driniaethau a all ymestyn bywydau pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes. Argymhellwyd pembrolizumab am ei fod yn gweithio'n well na thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG. Er ei fod yn

costio mwy na thriniaethau eraill, cafodd hyn ei gyfiawnhau gan y manteision roedd yn eu cynnig ar ôl rhoi ystyriaeth arbennig iddo.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Math o ganser y croen yw melanoma. Ystyr melanoma datblygedig yw pan na ellir tynnu'r canser yn llwyr drwy lawdriniaeth neu pan fydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff (metastatig). Mae un math o melanoma yn achosi newid yn y celloedd o'r enw 'mwtadiad BRAF V600'. Mae hyn yn peri iddo gynhyrchu gormod o brotein BRAF, ac mae'r protein hwn yn peri i'r celloedd canser dyfu a rhannu.

Mae pembrolizumab (Keytruda) yn gyffur a roddir drwy bigiad, sy'n helpu system imiwnedd y corff i adnabod a dinistrio celloedd melanoma.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- CancerHelp UK (gwefan gwybodaeth i gleifion Ymchwil Canser y DU), 0808 800 4040, www.cancerhelp.org.uk
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk
- Melanoma UK, 0808 171 2455, www.melanomauk.org.uk
- Skcin - Elusen Canser y Croen Karen Clifford, www.skcin.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1562-0